OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3153 (Cy.269)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Yn rhinwedd adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 Rhan III, rhaid i restrau ardrethu annomestig gael eu llunio ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn ar ôl 1990.

At ddibenion llunio rhestr o'r fath mae gwerth ardrethol hereditament annomestig i gael ei benderfynu ar y diwrnod y mae'n rhaid llunio'r rhestr neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2008 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerth ardrethol hereditament annomestig at ddibenion rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar 1 Ebrill 2010.

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 3153 (W.269)

RATING AND VALUATION, WALES

The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2007

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

By virtue of sections 41(2) and 52(2) of the Local Government Finance Act 1988 Part III, non-domestic rating lists must be compiled on 1 April in every fifth year after 1990.

For the purposes of compiling such a list the rateable value of a non-domestic hereditament is to be determined on the day on which the list must be compiled or on such day preceding that day as may be specified by order.

This Order specifies 1 April 2008 as the day by reference to which the rateable value of a non-domestic hereditament is to be determined for the purposes of the local and central non-domestic rating lists which are to be compiled on 1 April 2010.

Article 3 revokes the Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2002.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3153 (Cy.269)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007

Gwnaed	*4 Tachwedd 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*5 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym	*1 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dyddiad prisio

2. 1 Ebrill 2008 yw'r diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 (Prisio ar gyfer ardrethu annomestig) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion rhestrau ardrethol annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar gyfer Cymru ar 1 Ebrill 2010.

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 3153 (W.269)

RATING AND VALUATION, WALES

The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2007

Made	*4 November 2007*
Laid before the National Assembly for Wales	*5 November 2007*
Coming into force	*1 December 2007*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 to the Local Government Finance Act 1988(**1**) and now vested in the Welsh Ministers:

Title, commencement and application

1.-(1) The title of this Order is the Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2007 and it comes into force on 1 December 2007.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Valuation date

2. 1 April 2008 is specified under paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 (Valuation for non-domestic rating) to the Local Government Finance Act 1988 as the day by reference to which the rateable values of non-domestic hereditaments are to be determined for the purposes of the local and central non-domestic rating lists which are to be compiled for Wales on 1 April 2010.

(**1**) 1988 c.41. These powers were devolved, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), see the reference to the Local Government Finance Act 1988 in Schedule 1. By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) those functions are exercisable by the Welsh Ministers.

Dirymu

3. Dirymir Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002(**1**) i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

Revocation

3. The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2002(**1**) is revoked in so far as it relates to Wales.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru.

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers.

4 Tachwedd 2007

4 November 2007

(**1**) O.S. 2002/3186 (Cy.302).

(**1**) S.I. 2002/3186 (W.302).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 3153 (Cy.269)

2007 No. 3153 (W.269)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

RATING AND VALUATION, WALES

Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007

The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2007

©℗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W183/11/07 ON